

# YR AELOD CABINET DROS GARTREFI A DIRPRWY ARWEINYDD DYDD Llun, 6 Mawrth 2023

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: L.D. Evans (Aelod o'r Cabinet)**

## **Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**

H. O'Brian, Arweinydd y Sector Preifat ;

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10.00 yb - 10.15 yb**

### **1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

### **2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 12FED IONAWR 2023**

**PENDERFYNWYD** llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Ionawr 2023, gan ei fod yn gywir.

### **3. PENNU RHENTI AR GYFER SAFLE SIPSIWN/TEITHWYR PEN-Y-BRYN 2023/24**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad i gadarnhau'r cynnydd yn y rhenti wythnosol ar gyfer safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24. Hysbyswyd yr Aelod Cabinet fod y safle Sipsiwn a Theithwyr yn wasanaeth a gyllidir gan y Dreth Gyngor a bod 15 llain ar safle Pen-y-bryn ar hyn o bryd. Er bod pob Awdurdod Lleol a Chymdeithas Dai yng Nghymru wedi alinio â'r polisi pennu rhenti tai cymdeithasol mewn perthynas â'r lefelau rhent ar gyfer tai cymdeithasol, nid oedd safle Pen-y-bryn yn rhan o'r Cyfrif Refeniw Tai, ac felly nid oedd y lefelau rhent a godir yn cael eu rheoli gan bolisi rhenti Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, barnwyd ei bod yn deg cynyddu rhenti ar y safle gan ddilyn yr un fformiwla a ddefnyddiwyd ar gyfer tenantiaid y Cyngor. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, byddai hynny'n gynydd o 5.5% ac argymhellwyd pennu'r lefelau rhent wythnosol ar gyfer 2023/24 ar £61.94 (net taliadau am wasanaethau a threthi dŵr) gan ddarparu incwm blynyddol o £44,596.00 ar gyfer 2023/24, pe bai pob un o'r 15 llain yn cael eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet am sicrwydd o ran yr amodau ar y safle.

#### **PENDERFYNWYD:**

- 3.1 pennu mai £61.94 fyddai'r rhent wythnosol am leiniau ar Safle Sipsiwn/Teithwyr Pen-y-bryn, wedi'i gasglu dros 48 wythnos;**
- 3.2 bod y polisi ynghylch taliadau am wasanaethau yn cael ei weithredu i sicrhau bod tenantiaid y safle yn talu am y gwasanaethau ychwanegol hyn;**
- 3.3 pennu mai £40.13 yw'r tâl am ddefnyddio dŵr, wedi'i gasglu dros 48 wythnos;**
- 3.4 awdurdodi swyddogion i ymgynghori â phreswylwyr Pen-y-bryn a phennu'r taliadau cyffredinol a nodir yn nhabl 1.**

---

**AELOD O'R CABINET**

---

**DYDDIAD**